

# Samplu pysgod cregyn atodol

Gwybodaeth am y cynllun samplu atodol ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd a chynaeafwyr pysgod cregyn

Gall cynaeafwyr pysgod cregyn gyflwyno samplau ychwanegol i'w cynnwys o fewn ein rhaglen monitro rheolaethau microbiolegol swyddogol ar gyfer dosbarthu pysgod cregyn. Gelwir y rhain yn samplau 'atodol'.

Mae parhau i ddsbarthu ardal gynaeafu (boed dosbarth A, B neu C) yn dibynnu ar ddadansoddiad ystadegol o ganlyniadau samplu. Po fwyaf o ddata sydd gennym, y lleiaf yw'r siawns i un canlyniad unigol effeithio ar y dosbarthu. Mae rhagor o ddata hefyd yn rhoi gwybodaeth inni am amrywiadau tymhorol ansawdd d?r.

Mae data samplu pysgod cregyn yn cael ei asesu dro ar ôl tro a'r mwyaf o ddata sydd gennym ni, y mwyaf sefydlog y gall y dosbarthu fod. Mae hyn hefyd yn rhoi gwell syniad o unrhyw amrywiadau mewn ansawdd d?r trwy gydol y flwyddyn.

Bydd canlyniadau'r samplu ychwanegol yn cael eu hasesu yn yr un modd â chanlyniadau'r samplu rheolaeth swyddogol. Bydd y rhain yn helpu i benderfynu ar ddsbarthu, agor a chau ardaloedd cynhyrchu.

## PWYSIG

### Cyfeiriadau at yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn nogfennau canllaw'r Asiantaeth Safonau Bwyd

Mae'r ASB yn diweddarau holl gyfeiriadau'r UE, i adlewyrchu'n gywir y gyfraith sydd bellach mewn grym, ym mhob canllaw newydd neu ddiwygiedig a gyhoeddwyd ers i'r Cyfnod Pontio ddod i ben ar ddiwedd 2020. Mewn rhai amgylchiadau efallai na fydd bob amser yn ymarferol i ni ddiweddarau'r holl gyfeiriadau at yr UE ar yr adeg yr ydym ni'n cyhoeddi canllawiau newydd neu ddiwygiedig.

Ac eithrio yng Ngogledd Iwerddon, dylid darllen unrhyw gyfeiriadau at Reoliadau'r UE yn y canllawiau hyn i olygu cyfraith yr UE a ddargedwir (retained EU law). Gallwch weld cyfraith yr UE a ddargedwir trwy [Archif Ymadael â'r UE](#) Llywodraeth EM. Dylid darllen y gyfraith hon ochr yn ochr ag unrhyw ddeddfwriaeth Ymadael â'r UE a wnaed i sicrhau bod cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithredu'n gywir yng nghyd-destun y Deyrnas Unedig (DU). Mae deddfwriaeth Ymadael â'r UE i'w gweld ar [legislation.gov.uk](https://legislation.gov.uk).

Yng Ngogledd Iwerddon, bydd cyfraith yr UE yn parhau i fod yn berthnasol mewn perthynas â'r rhan fwyaf o gyfraith hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid, fel a restrir ym [Mhrotocol Gogledd Iwerddon](#), ac ni fydd cyfraith yr UE a ddargedwir yn berthnasol i Ogledd Iwerddon o dan yr amgylchiadau hyn.

Mae'r canllawiau ar gyfer samplu atodol yng Nghymru, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon yn cwmpasu'r broses ymgeisio a chyflwyno ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd i gymryd rhan mewn samplu atodol.

## **England a Wales**

[View Shellfish supplementary sampling guide England and Wales as PDF](#) (462.54 KB)

Canllawiau samplu atodol Gogledd Iwerddon

## **Northern Ireland**

[View Shellfish supplementary sampling guide Northern Ireland as PDF](#) (272.18 KB)